

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL  
RHONDDA CYNON TAF**

**GWŶS I GYFARFOD O'R CYNGOR**

**P J Lucas**  
**Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol**  
**Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf**  
**Y Pafiliynau**  
**Parc Hen Lofa'r Cambrian**  
**Cwm Clydach CF40 2XX**

Ms Karyl May (Ffôn: 01443 424045)

**DYMA WŶS I CHI** i gyfarfod o **GYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF** sydd i'w gynnal yn Swyddfeydd Cyngor y Fwrdeistref Sirol, Y Pafiliynau, **Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, brynhawn Mercher, 20 Gorffennaf 2016** am **5.00 p.m.**

**AGENDA**

**Tudalennau**

**DATGAN BUDDIANT**

- 1** Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau, yn unol â gofynion Côd Ymddygiad y Cyngor

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant personol sy'n rhagfarnu, mae **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

**2 CYHOEDDIADAU**

**3 COFNODION**

Cadarnhau cofnodion o gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd **1 - 8** ar 29 Mehefin 2016 yn rhai cywir.

**4 LLYWODRAETHU AGORED:**

- 5 DATGANIADAU** yn unol â gofynion Rheol Dull Gweithredu 2

Derbyn datganiadau gan Arweinydd y Cyngor a/neu Gynghorwyr sy'n Aelodau o'r Cabinet mae gyda nhw gyfrifoldebau gweinyddu.

## **6 CWESTIYNAU GAN Y CYNGHORWYR**

- (a) **Cwestiwn gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol J.James i Arweinydd y Cyngor (Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol A.Morgan).**

"A wnaiff yr Arweinydd ddatganiad ar y swyddogaeth bwysig sydd i `gwestiynau â rhybudd` yn nhermau caniatáu i Gynghorwyr graffu'n drylwyr y penderfyniadau gan y Cabinet a'r Cyngor".

- (b) **Cwestiwn gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol S.Carter i Arweinydd y Cyngor (Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol A.Morgan).**

"A wnaiff yr Arweinydd ddatganiad ar y nifer o ymwelwyr sydd wedi bod i'r Lido hyd yn hyn y tymor yma?"

- (c) **Cwestiwn gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol (Mrs) M.E.Davies i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Ffyniant, Lles, a Chymunedau, Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol J.Rosser**

"Pa ohebiaeth y mae'r Cyngor wedi'i derbyn gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf mewn perthynas â chynnal Gwasanaeth Gofal Iechyd Sylfaenol?"

## **7 Cynllun Cyflawni Blynyddol 2015-16 – Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf**

**9 - 40**

Derbyn Mr.C.Davies, Swyddfa Archwilio Cymru, i gyflwyno'r Adroddiad Cyflawni Blynyddol i'r Cyngor.

## **8 Adolygiad Blynyddol Cylch Rheoli'r Trysorlys 2015/16 a Diwygiad i Strategaeth Buddsoddi 2016/17**

**41 - 50**

Trafod adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen

## **9 Rhybudd o Gynnig**

Trafod Rhybudd o Gynnig sydd wedi'i gyflwyno yn enwau Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol (Mrs.)E.Hanagan, A.Morgan, R.B.McDonald, (Mrs.)A.Roberts, L.M.Adams, (Mrs.)T.Bates, D.R.Bevan, H.Boggis, J.Bonetto, S.Bradwick, (Mrs.)J.Bunnage, A.Calvert, P.Cannon, S.Carter, J.Cass, A.Crimmings, W.J.David, A.Davies,MBE, (Mrs.)A.Davies, J.Davies, (Mrs.)M.E.Davies, (Mrs.)L.De Vet, J.Elliott, S.Evans, M.Forey, A.Fox, M.Griffiths,

P.Griffiths, G.Holmes, G.Hopkins, (Mrs.)S.J.Jones, L.Langford, R.Lewis, (Mrs.)C.Leyshon, S.Lloyd, C.Middle, K.Montague, B.Morgan, M.A.Norris, S.Pickering, S.Powderhill, K.Privett, S.Rees, J.Rosser, G.Smith, R.Smith, G.Stacey, B.Stephens, (Mrs.)M.Tegg, G.Thomas, R.K.Turner, (Mrs.)J.S.Ward, M.J.Watts, M.Weber, D.Weeks, C.J.Williams, D.H.Williams, T.Williams, C.J.Willis, a R.Yeo:-

"Bod y Cyngor hwn yn gwrthwynebu'r bwriad i gau Banc Lloyds Tonyrefail a'r diffyg ymgynghori â'r gymuned.


Mae'r cau yn debygol o gael effaith sylweddol ar y nifer o bobl sy'n mynd i Donyrefail, gan arwain o bosib at niwed yr economi leol.

Mae'r Cyngor yn gofyn bod cyfleoedd yn cael eu hystyried i gynnis gwasanaethau bancio trwy ganghennau lleol y Swyddfa Bost neu gyfleusterau eraill yn y gymuned cyn bwrw ymlaen â'r penderfyniad hwn.

Mae'n glir bod y penderfyniad yn rhan o gyfeiriad tuag at fancio personol ar-lein, ond does gan lawer o bobl yn Nhonyrefail ddim modd i gyrchu'r rhyngwyd neu dydyn nhw ddim yn dymuno trafod eu harian trwy'r cyfrwng hwn. Mae angen ailystyried y penderfyniad er budd y gymuned ehangach."

Mae'r Cyngor hwn unwaith yn rhagor yn gwrthwynebu, ar ddu a gwyn, y strategaeth sy'n cael ei gweithredu gan y sector bancio i dynnu'u gwasanaethau o'r stryd fawr.

- 10 Trafod unrhyw faterion sydd, yn ôl doethineb y Maer, yn faterion brys yng ngoleuni amgylchiadau arbennig.



**Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol**

**At: Pob aelod o'r Cyngor**

**13 Gorffennaf, 2016**